

ST. DAVID'S CATHOLIC COLLEGE
COLEG CATHOLIG DEWI SANT

Polisi Arian Wrth Gefn a Grant Myfyrwyr

1. Ar gael gan y Gwasanaethau Myfyrwyr ar lawr gwaelod y prif adeilad.
2. Cyhoeddir yr holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r cais am grant, bwrsariau neu gymorth ariannol i ymgeiswyr unigol yn Gymraeg ac yn Saesneg.
3. Gellir cyflwyno ymgeiswyr yn Gymraeg ac ni chânt eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg.
4. Os oes angen cyfweld ymgeiswyr unigol am grantiau neu gymorth ariannol, mae cyfweiliadau ar gael yn Gymraeg neu ymgeiswyr a ymgeisiodd yn Gymraeg, gan ddefnyddio cyfieithu ar y pryd os oes angen. Os cyflwynir cais am grant neu gymorth ariannol yn Gymraeg, byddwn yn hysbysu'r ymgeisydd o ganlyniad ein penderfyniad yn Gymraeg.
5. Wrth wneud penderfyniad mewn perthynas â dyfarnu grant neu gymorth ariannol e ystyried yr effeithiau y byddai dyfarniad neu gymorth o'r fath yn ei gael ar y cyfleoedd i'r ymgeiswyr ac eraill ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na fyddai ein penderfyniad yn lleihau'r cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r iaith nac achosi effeithiau andwyol.
6. Gellir gwneud neu weithredu'r penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar gyfleoedd i ymgeiswyr ddefnyddio'r Gymraeg.

7. Nodiadau arweiniad ymgeisio 2022/23

Mae cymorth FCF yn ddewisol ac nid yw'n hawl. Mae cyllid yn gyfyngedig ac nid oes gwarant o unrhyw ddyfarniad. Mae dyraniadau hefyd yn amodol ar unrhyw newidiadau cyllidebol y gall Llywodraeth Cymru eu gorfodi.

Mae'r arian a ddyrennir i'r gronfa hon yn gyfyngedig felly argymhellir ymgeisio'n gynnar.

Cyn cwblhau'ch cais FCF, mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau arweiniad hyn. Os nad ydych yn deall rhywbeth neu os ydych yn cael anhawster wrth gwblhau'ch cais, e-bostiwch eich cwestiynau i'n Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr ar studentservices@stdavidscollege.ac.uk

Ydw i'n gymwys?

I fod yn gymwys ar gyfer cymorth ariannol o'r Gronfa Ariannol wrth Gefn (FCF):

Rhaid eich bod chi'n derbyn LCA.

Rhaid eich bod chi'n 16 oed neu'n hŷn ar 31 Awst 2021, ac wedi cofrestru ar gwrs addysg bellach llawn amser; neu gwrs rhan amser os nodir eich bod chi mewn gofal neu wedi gadael gofal

Os ydych chi dros 19 oed byddai'n rhaid i chi wneud cais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) <https://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/cyllid-addysg-bellach/grant-dysgu-llywodraeth-cymru/>

Rhaid bod gennych gofnod presenoldeb o 95% a rhaid i chi gadw at Reolau Ymddygiad Dysgwyr y coleg Rhaid eich bod chi'n byw yn y DU fel arfer neu fod wedi byw yn y DU am 3 mlynedd cyn dechrau'r cwrs (neu'n cael eich cyfrif fel 'myfyriwr cartref' mewn ffordd arall, megis bod yn ddinesydd yr UE neu'n ffoadur). Yn anffodus, ni allwn gynnig FCF os ydych chi'n Geisiwr Lloches.

Rhaid i chi roi gwybod i ni os bydd eich amgylchiadau'n newid, er enghraifft eich cwrs, nifer o oriau astudio, trefniadau gofal plant, neu amgylchiadau personol.

Ar gyfer beth mae angen cymorth ariannol arnoch chi?

Gellir darparu cymorth ar gyfer y canlynol:

Costau teithio

Mae bysiau'r coleg ar gael o Gaerffili a Bro Morgannwg. Mae'n bosib y byddwch yn gymwys am bàs bws rhad ac am ddim, y byddai angen i chi wneud cais amdano drwy'r awdurdod lleol yn eich ardal.

Os nad ydych chi'n byw ar lwybr bws y coleg, mae'n bosib y byddwn yn gallu cyfrannu at eich pàs bws Caerdydd.

Trafnidiaeth Anabl

Os yw'ch anabledd yn eich atal rhag cael mynediad at y Coleg ar drafnidiaeth gyhoeddus, bydd FCF yn talu cost trafndiaeth.

Offer, cit, gwisg ysgol, neu Gyfarpar Diogelu Personol (PPE)

Os yw'ch cwrs yn gofyn i chi brynu offer, cit, gwisg ysgol neu PPE hanfodol, gall y gronfa helpu gyda rhywfaint o'r gost neu'r cyfan ohoni.

Gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Os yw'ch cwrs yn gofyn am wiriad DBS, gall y gronfa helpu tuag at gost hwn.

Gofal Plant

I dderbyn cymorth ariannol tuag at ofal plant, rhaid bod incwm blynyddol eich aelwyd yn £16,390 neu lai.

Atebwch yr holl gwestiynau i'n caniatáu i asesu'ch cais yn gywir

Sut byddaf yn darganfod a yw fy nghais yn llwyddiannus?

Bydd pob cyfathrebiad â chi drwy e-bost i'ch cyfrif e-bost coleg.

Beth os mae fy nghais yn aflwyddiannus?

Byddwn yn anfon hysbysiad at eich cyfrif e-bost coleg.

Os hoffech apelio yn erbyn y penderfyniad mae gennych 14 diwrnod o ddyddiad yr e-bost i wneud hynny.

Ffurflen Gais - Cronfa Ariannol wrth gefn (FCF)

Mae'ch cais i'r 'Gronfa Ariannol Wrth Gefn' yn gais â phrawf moddion sy'n seiliedig ar incwm eich aelwyd, sydd rhaid iddo fod yn is na £23,078 y flwyddyn.

Mae'r gronfa yn seiliedig ar grantiau dewisol, lle mae'r Coleg yn gallu'ch helpu chi drwy gyfrannu tuag at eich costau teithio, costau anabledd, cost offer hanfodol ar gyfer cwrs penodedig, cost ymweliadau addysgol, cymorth gyda chost prydiau bwyd yn y Coleg, ffioedd arholiad, costau gofal plant, costau preswyl neu gostau byw ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yn annibynnol.

Ffurflen Gais - Cronfa Ariannol wrth gefn (FCF)

1. Ticiwch y blwch isod i gadarnhau eich bod wedi darllen a deall y nodiadau canllaw.
2. Cyfeiriad
3. Cod post
4. Prif Rhif Ffôn
5. Enw ar gyfrif (myfyrwyr)
6. Cod Adnabod Banc (chwe digid 00-00-00)
7. Rhif Cyfrif Banc (8 digid)
8. Dyddiad geni
9. Teitl y cwrs
10. Ydych chi'n ddinesydd y DU?
11. Ydych chi'n geisiwr lloches?
12. Ydych chi'n darparu gofal i aelod o'r teulu sy'n sâl neu'n anabl?
13. Ydych chi mewn gofal / plentyn sy'n derbyn gofal?